

Albert Heaney
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Director of Social Services and Integration
Y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Health and Social Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Ddarparwyr Gofal Cymdeithasol

21 Mawrth 2019

Annwyl Gyfaill

Parthed: y paratodau mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi bwyd yn y sector Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, os na fydd cytundeb Brexit

Yn dilyn fy llythyr dyddiedig 11 Mawrth ynghylch y paratodau i sicrhau parhad y cyflenwad o ddyfeisiau meddygol a defnyddiau clinigol traul, rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am y paratodau cyflenwi bwyd os na fydd cytundeb Brexit.

Gallai ymadael â'r UE heb gytundeb amharu rhywfaint ar y gadwyn cyflenwi bwyd. Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu y byddai hyn yn arwain at brinder bwyd yn gyffredinol, ond serch hynny byddai'n gallu golygu bod llai o rai cynhyrchion ar gael, a hefyd bod llai o ddewis o ran rhai cynhyrchion, os ydynt yn cael eu mewnfario o'r UE, er enghraifft rhai mathau o ffrwythau a llysiau ffres.

Byddai toriadau yn y cyflenwad bwyd yn y tymor byr yn annhebygol o leihau'r maethynnau sydd ar gael i bobl. Fodd bynnag, fel rhan o'ch cynlluniau busnes ar gyfer Brexit, rydym yn argymhell eich bod yn edrych ar ffyrdd o addasu prydau bwyd os bydd llai o gynhwysion ar gael. Mae cyngor deietegol yn y DU, fel y'i rhoddir yn y Canllaw Bwyta'n Dda yn: <https://beta.llyw.cymru/canllaw-bwytan-dda>, yn seiliedig ar amrywiaeth eang o fwydydd. Os bydd un eitem o fwyd yn mynd yn brin, bydd yn bosibl ddefnyddio bwyd arall yn ei le o fewn pob grŵp bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu cyngor ar fwyd mewn lleoliadau sector cyhoeddus i gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer ymadael â'r UE. Caiff y cyngor hwn ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru maes o law, a byddwn yn rhoi gwybod ichi pan fydd hynny'n digwydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol i ystyried cyfanwerthu strategol, a chyda dosbarthwyr a manwerthwyr bwyd i ddeall eu cynlluniau wrth gefn. Mae neges manwerthwyr yn gyson o ran bod paratodau trylwyr yn cael eu gwneud ac y bydd cyflenwadau'n cael eu cynnal, hyd yn oed os bydd llai o ddewis o ran rhai cynhyrchion. Felly peidiwch â phentyrru bwyd gan y gallai hynny effeithio ar gyflenwadau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi adnodd hunanasesu drwy Busnes Cymru i helpu busnesau i nodi'r risgiau, ac i fod yn barod os na fydd cytundeb: <https://businesswales.gov.wales/brexit/cy>

Caiff busnesau cymwys hefyd wneud cais i Gronfa Cydnerthedd Brexit i'w helpu i addasu i'r newidiadau yn economi Cymru ar ôl Brexit: <https://businesswales.gov.wales/brexit/cy/cymorth/cronfa-cydnerthedd-brexit>

Mae rhagor o wybodaeth am sut y mae Cymru yn paratoi'n gyffredinol ar gyfer Brexit ar gael ar wefan Paratoi Cymru: https://beta.llyw.cymru/paratoi-cymru-brexit/iechyd-gwasanaethau-cymdeithasol?_ga

Rwy'n gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol ichi, a hoffwn ddiolch ichi am eich cyfraniad i'r gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol.

Yn gywir,

Albert Heaney

ALBERT HEANEY

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Copïau at: Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol
Awdurdodau Lleol